De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

# COFNOD PENDERFYNIADAU COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU DE CYMRU

## Ebrill 2023 - Ebrill 2024

| DYDDIAD | CAIS AM BENDERFYNIAD | GWYBODAETH ATEGOL | CYMERADWYWYD/GWRTHODWYD |
|---|---|---|---|
| 24/04/24 | Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru | Mae'r cyfraniad ariannol hwn o £40,000 yn gweithredu fel ffi aelodaeth ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Heddlu fel buddsoddiad i barhau i ddatblygu adnoddau ychwanegol. Caiff y Rhwydwaith ei oruchwylio gan Fwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru a'i ariannu ar y cyd gan Plismona yng Nghymru. | Cymeradwywyd |
| 27/03/24 | Blue Stagg | Yn 2023 comisiynodd y Comisiynydd y gwaith o ddylunio a chreu gwefan newydd a fydd yn cael ei lansio ym mis Mawrth 2024. Fel rhan o'r gwasanaeth hwn, cynigir y bydd Blue Stagg yn lletya ac yn cynnal y wefan newydd am gyfnod cychwynnol o 12 mis am gost o £1,280. | Cymeradwywyd |



| | | | |
|---|---|---|---|
| 26/03/24 | Digwyddiad Pride Cymru 2024 | Cynhelir Pride Cymru yng Nghaerdydd ar 22 a 23 Mehefin 2024. Bydd gan ein swyddfa stondin yn y digwyddiad am gost o £576. | Cymeradwywyd |
| 15/03/24 | Costau Cyfreithiol Dull System Gyfan a Chontract Ailgomisiynu'r Gwasanaethau i Bobl Ifanc 18-25 oed. | Contract cydweithredol sy'n dod â'r pedwar gwasanaeth ynghyd o dan un contract i ymgynghori ar broses/fframwaith caffael gydag amlinelliad cryno o'r prosiect arfaethedig. Y goblygiadau ariannol yw £43,845 | Cymeradwywyd |
| 04/03/24 | Tŷ Oldway, Merthyr | Darperir Gwasanaeth Ymyrryd ar gyfer Troseddwyr sy'n Camddefnyddio Sylweddau o Dŷ Oldway ac mae'r contract â Dyfodol yn cael ei ymestyn tan 31 Mawrth 2025. Penderfyniad i gyflwyno cymal terfynu ar gyfer prydles y safle hwn o fis Mawrth 2027. | Cymeradwywyd |
| 16/01/24 | Gwefan sy'n addas i bobl ifanc | Mae pobl ifanc wedi dweud dro ar ôl tro yr hoffent gael gwefan/ap lle y gallant gael gafael ar wybodaeth berthnasol mewn un man. Mae hyn wedi'i drafod yn ein Fforymau Lleisiau Ifanc ar sawl achlysur ac mae ein Panel Lleisiau Ifanc wedi cytuno mewn egwyddor i ddatblygu microwefan. Cefnogir y goblygiadau ariannol hyd at £6,000. | Cymeradwywyd |
| 13/01/24 | Mela Amlddiwylliannol Caerdydd 2024 | Mae'r Mela wedi cael ei gynnal yn flynyddol ers wyth mlynedd ac wedi denu mwy na 30,000 o ymwelwyr mewn un dydd. Mae'r digwyddiad yn arddangos amrywiaeth eang o ddiwylliannau, cerddoriaeth, dawns, celfyddydau, ffasiwn a bwyd yn ogystal â pherfformiadau cymunedol. Mae'n gyfle da i | Cymeradwywyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ymgysylltu â'r cyhoedd. Cost stondin yn y digwyddiad yw £150. | |
| 02/01/24 | Adolygiad o Achosion o Stelcio sy'n Canolbwyntio ar y Dioddefwr | Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried yr ymateb i stelcio o safbwynt y dioddefwr mewn modd cyfannol, gan gynnwys mwy o ffocws ar daith y troseddwr drwy'r system cyfiawnder troseddol. Bydd yr adolygiad yn rhoi argymhellion i ni sy'n canolbwyntio ar anghenion lleol ac ar wella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr stelcio yn ardal ein heddlu. Dyrannu £50,400 i Sefydliad Suzy Lamplugh i gynnal yr adolygiad hwn. | Cymeradwywyd |
| 23/12/2023 | Gweithredu dros Gaerau a Threlái | Mewn ymateb i'r aflonyddwch yn Nhrelái, mae angen adnoddau i roi cynllun cymunedol 2024/25 ar waith ynghyd â llwybrau cyfathrebu hanfodol rhwng y partneriaid a'r gymuned, yn enwedig mewn perthynas â'r gwaith parhaus o ddatblygu prosiectau mawr. | Cymeradwywyd |
| 15/12/2023 | Cynnig Sefydliad yr Heddlu – Y Dirwedd Diogelu'r Cyhoedd ac Atal Troseddau | Ymrwymiad i gefnogi'r gwaith ledled Cymru a'r Uned Lleihau Trais. Bydd hyn yn darparu adolygiad cyflym o'r dirwedd atal troseddau a niwed yng Nghymru, gan nodi bylchau a rhwystrau. | Cymeradwywyd |
| 29/11/2023 | Caffael Tŷ Trevithick | Cyfnewid llety â Chyngor Rhondda Cynon Taf er mwyn datblygu Pencadlys Is-adrannol newydd ar gyfer Morgannwg Ganol, ynghyd â phrosiect y Cyngor i ailddatblygu'r Orsaf Heddlu bresennol ym Mhontypridd. | Cymeradwywyd |
| 26/10/2023 | Ymgyrch cyfryngau ar Danau Bwriadol yn Nhrelái a Chaerau | Rhodd o £500 i ariannu'r gwaith o gynhyrchu arwyddion a baneri i'w gosod yng nghymunedau Trelái a Chaerau er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r peryglon sy'n gysylltiedig â chynnau tân. | Cymeradwywyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 26/10/2023 | Gwobr Dewrder Cyhoeddus gan yr Heddlu 2023 | Cyfraniad o £500 i gefnogi'r digwyddiad hwn gan bob heddlu yn y DU ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr. | Cymeradwywyd |
| 19/10/2023 | Cyllid i ehangu'r Gwasanaeth Ymyrryd ar gyfer Troseddwyr sy'n Camddefnyddio Sylweddau | Cymeradwyo'r ymrwymiad o £2M i ehangu'r Gwasanaethau Ymyrryd ar gyfer Troseddwyr sy'n Camddefnyddio Sylweddau, a ddarperir gan Gonsortiwm Dyfodol, tan 31 Mawrth 2025. | Cymeradwywyd |
| 19/10/2023 | Gwefan | Y nod o gael gwefan ar gyfer y Tîm y gall y cyhoedd ei defnyddio'n hawdd, a sicrhau cydymffurfiaeth ac ymgysylltiad parhaus, am gost o £23,100. | Cymeradwywyd |
| 17/10/2023 | Wythnos Diogelu Genedlaethol | Cyfraniad o £1,500 wedi'i rannu rhwng pob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol fel cyfraniad at y gweithgareddau i gefnogi'r Wythnos Diogelu Genedlaethol. | Cymeradwywyd |
| 16/10/2023 | Cydlynydd Prosiect ADDER | Mae Prosiect ADDER (sef Caethiwed (Addiction), Dargyfeirio (Diversion), Amharu (Disruption), Gorfodi (Enforcement) ac Adfer (Recovery)) yn rhaglen bedair blynedd wedi ei hariannu gan y Swyddfa Gartref, ac mae un safle yng Nghymru, sy'n cwmpasu ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, y mae angen Cydlynydd arno a fydd yn gyfrifol am gydlynu holl weithgarwch ADDER yn lleol tan 31 Mawrth 2025. | Cymeradwywyd |
| 27/09/2023 | Nawdd ar gyfer y Gynhadledd Dulliau Adferol | Ceisio cytundeb am nawdd o £1,000 i ariannu gwasanaethau ymgynghori, meithrin gallu ac ymchwil Cymru Adferol ar gyfer Cynhadledd Cymru Adferol ar 14 Tachwedd 2023. | Cymeradwywyd |
| 22/09/2023 | Diogelwch Tiger Bay | Cais am £3,112 i ddefnyddio menter leol i gefnogi gwaith rheoli digwyddiad ar gyfer Cynhadledd Flynyddol Genedlaethol Cymdeithas yr Heddlu Du yng Nghaerdydd ar 10 Hydref 2023. | Cymeradwywyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15/09/2023 | Prynu Kingsway | Mae Heddlu De Cymru yn prydlesu adeilad Kingsway ar hyn o bryd, ond daw'r trefniant i ben ar 31 Gorffennaf 2023. Argymhellir felly y dylid prynu adeilad Kingsway ac unrhyw leoedd parcio cysylltiedig am £3m, er mwyn darparu'r cyfleusterau gofynnol. | Cymeradwywyd |
| 13/09/2023 | Noddi Hanes Pobl Dduon Cymru | Mae sefydliad Hanes Pobl Dduon Cymru wedi cael ei noddi gan y pedwar heddlu yng Nghymru a chytunwyd y bydd pob heddlu yn cyfrannu £3,500 bob blwyddyn wedi'i rannu rhwng yr heddlu a Thîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, sef £1,750 yr un. Mae thema eleni yn cydnabod yr effaith y mae Hanes Pobl Dduon Cymru yn ei chael ar y wlad gyfan, gan ddathlu pobl yn eu rolau fel y rhai a newidiodd hanes a cheidwaid y dyfodol. | Cymeradwywyd |
| 18/08/2023 | Ymgynghorydd ar gyfer Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru | Bydd yr Ymgynghorydd yn rhoi cyngor arbenigol mewn perthynas â phlismona ledled Cymru am hyd at 60 o ddiwrnodau gyda gweithgareddau penodol yn ymwneud â Rhaglen Ysgolion Cymru Gyfan. Dim goblygiadau ariannol gan y caiff hyn ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Ceir cytundeb grant ond efallai y bydd angen ystyried rhai trefniadau lletya. | Cymeradwywyd |
| 28/08/2023 | Diogelwch y Prif Gwnstabl | Fel rhan o gontract y Prif Gwnstabl, caiff y diogelwch a ddarperir i'w gyfeiriad cartref ei ddarparu a'i reoli drwy Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. | Cymeradwywyd |
| 03/05/2023 | Cynllun Gwirfoddolwyr Ieuenctid yr Heddlu | Bwriedir i'r Cynllun gynhyrchu canlyniadau hirdymor, gan gydnabod yr angen i ddatblygu partneriaid cyflawni newydd ac mae llawer o'r canlyniadau yn ymwneud â llesiant a chynnydd llwyddiannus ein gwirfoddolwyr. Caiff y costau eu rhannu â'r Heddlu dros amser er mwyn adlewyrchu'r ffaith mai cynllun | Cymeradwywyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ar y cyd ydyw. Mae darpariaeth wedi cael ei chynnwys yng nghyllideb y Comisiynydd i dalu'r costau ar gyfer 2023/24, sef £104,000. | |
| 11/08/2023 | Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol, Noddi Rhaglen Arweinyddiaeth Academi Wales | Mae noddi'r rhaglen yn caniatáu i un ymgeisydd o dîm y Comisiynydd gymryd rhan yn y cynllun am gost ostyngol o £6,000. Yn unol â'n hymrwymiad parhaus i gefnogi cenedlaethau'r dyfodol yn Ne Cymru a datblygu arweinwyr ifanc. | Cymeradwywyd |
| 04/08/2023 | Cynhadledd Genedlaethol Cymdeithas yr Heddlu Du | Mae pob Heddlu yng Nghymru a Lloegr yn mynd i'r Gynhadledd a bydd yn denu siaradwyr proffil uchel sydd ar flaen y gad o ran barn y cyhoedd a'r newyddion, a bydd nifer o faterion plismona diwylliannol ar yr Agenda a gaiff eu trafod dros dridiau. | Cymeradwywyd |
| 10/08/2023 | Uwch-swyddog Polisi | Caiff y rôl hon ei hariannu drwy'r Grant Dioddefwyr i sicrhau bod dioddefwyr yn cael gwasanaethau i ymdopi ag effaith trosedd ac adfer yn dilyn hynny. | Cymeradwywyd |
| 09/08/2023 | Cyllid ar gyfer Uwch-ddadansoddwr Gwasanaeth Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru Gyfan (IOM) | Diben y rôl hon yw darparu datrysiadau dadansoddol er mwyn dangos cysondeb â Strategaeth Troseddau Cymdogaethau IOM. Mae Heddlu De Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi cael cais am gyllid ychwanegol i estyn contract rôl yr Uwch-ddadansoddwr Partneriaeth tan fis Awst 2025 am gost ychwanegol o £9,433 | Cymeradwywyd |
| 25/07/2023 | Cronfa Plismona yn y Gymdogaeth | Creu Cronfa Plismona yn y Gymdogaeth i gefnogi Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn Ne Cymru wrth iddynt fynd i'r afael â phroblemau cymunedol lleol. Creu system lle gellir cael gafael ar £500 ar gyfer prosiect lleol fel cronfa datrys problemau. | Cymeradwywyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 24/07/2023 | Taith Undod yr Heddlu | Diben Taith Undod yr Heddlu yw codi ymwybyddiaeth o Swyddogion Gorfodi'r Gyfraith a fu farw wrth wasanaethu. Ail ddiben y daith o'r DU yw codi arian i 'Care of Police Survivors', sef elusen yn y DU sy'n ymroddedig i helpu teuluoedd swyddogion yr heddlu sydd wedi marw wrth wasanaethu. Bydd rhodd o £500 ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 i gefnogi'r gweithgaredd hwn yn helpu i hyrwyddo'r digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol a chodi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch codi arian. | Cymeradwywyd |
| 21/07/2023 | Darparu Cyrsiau Gwaith Ieuenctid a Chymunedol ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu | Nodwyd bod bwlch o ran hyfforddiant Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ym maes Gwaith Ieuenctid a Chymunedol. Y cynnig yw i Brifysgol Met Caerdydd ddarparu'r tri chwrs hyn dros yr haf, un ym mhob un o feysydd yr Uned Reoli Sylfaenol. Bydd y Brifysgol yn darparu'r cwrs cyntaf am ddim ac yna'n gofyn am gyfraniad o £3,000 i ddarparu'r ddau arall. | Cymeradwywyd |
| 21/07/2023 | Cyfraniad at Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru 2023-25 | Cymeradwyo ymrwymiad ariannol a wnaed gan y Comisiynydd i gefnogi gwaith Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru sy'n cynnwys Cyfraniad Staff, Cynllun Cyflawni Cydraddoldeb Hiliol a'r Panel Goruchwylio a Chynghori Annibynnol. | Cymeradwywyd |
| 03/07/2023 | Cyfrif Diwedd Blwyddyn 2022/23 – sefyllfa arfaethedig o ran Cronfeydd Wrth Gefn | Fel rhan o'r broses cyfrifon diwedd blwyddyn, mae angen i'r Comisiynydd gymeradwyo symudiadau arfaethedig i'r Cronfeydd Wrth Gefn fel y sawl sy'n gyfrifol am Gronfa'r Heddlu. Gwneir gwaith craffu priodol ar y cynigion ac fe'u hargymhellir. | Cymeradwywyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 07/06/2023 | Hyfforddiant Gwrth-hiliaeth | Cynnig i Apex Educate ddarparu Hyfforddiant Gwrth-hiliaeth i 10 Uwch-arweinydd yn swyddfa'r Comisiynydd dros gyfnod o wyth mis â phum sesiwn. Meithrin dealltwriaeth fanwl o wrth-hiliaeth a ffyrdd o ddatblygu eu meysydd. Y goblygiadau ariannol yw £12,450 | Cymeradwywyd |
| 22/05/2023 | Dyrannu Cyllid Ychwanegol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Mae hyn yn cefnogi ymrwymiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gefnogi cymunedau amrywiol. Mae'r cyllid yn seiliedig ar arbenigedd y tîm sy'n datblygu'r cynlluniau. Bydd £133,358 yn ariannu dwy swydd newydd o 2023-25 a'r ail o 2024-25, yn gweithio fel rhan o brosiect DRIVE yng ngharchar Abertawe yn cefnogi Goroeswyr sy'n oedolion a phlant. Bydd yr ail swydd yn gweithio gyda chymunedau Sipsiwn a Theithwyr. | Cymeradwywyd |
| 15/05/2023 | Adnoddau Strategol ar gyfer Cyllid Prifddinas – 56 Degrees North | Penodwyd 56 Degrees North gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fel cynghorwyr strategol yn y Prosiect Cyllid Prifddinas ym mis Mai 2022. Cytunwyd ar estyniad cymeradwy i barhau i gefnogi'r prosiect am y 3 mis nesaf. | Cymeradwywyd |
| 15/05/2023 | Hyfforddiant Diogelu Data | Mae'r hyfforddiant hwn yn hanfodol i sicrhau bod y timau yn gwybod sut i gadw data, eu prosesu a'u rhannu, os yw'n briodol. Ar hyn o bryd, mae diogelu data yn risg goch ar gofrestr risgiau strategol y Comisiynydd. Byddai'r hyfforddiant hwn yn ceisio lliniaru rhywfaint o'r risg honno. Cafwyd dyfynbris o £1,500 gan gwmni cyfreithwyr Geldards i ddarparu'r sesiwn dair awr ac roedd y cynnwys yn briodol ar gyfer ein hanghenion. | Cymeradwywyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12/05/2023 | Datblygu Sefydliadol | Fel rhan o brosesau twf a datblygu sefydliadol, mae darn manwl o waith wedi dechrau i lunio cynllun busnes cadarn. Bydd gan hwn ganlyniadau clir iawn a gwerthusiad i ddangos effaith y gwaith ar y swyddfa gyfan. Gwneir cais i gefnogi secondiad yr unigolyn i'r swyddfa am gyfnod o 12 mis a gwarantu cyfanswm y cyllid. | Cymeradwywyd |
| 10/05/2023 | Atodiad i Werthusiad o Gam Dau Rhaglen Drive | Mae rhaglen Drive yn ceisio cyllid i gynnal gwerthusiad meintiol am gyfnod astudio o 24 mis, a fydd yn costio £25k y flwyddyn i bob ardal gysylltiedig am ddwy flynedd. Bydd yr ymchwil yn rhoi tystiolaeth bellach o werth rhaglen Drive i blismona, gan helpu i ddeall effeithiau cadarnhaol ar ddioddefwyr materion diogelu a phlant gan y cyflawnwyr cam-drin domestig mwyaf difrifol a chyfle i wella trefniadau cydweithio. | Cymeradwywyd |
| 10/05/2023 | Nwyddau Ymgysylltu 2023 | Prynu nwyddau ymgysylltu ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus, rhannu negeseuon allweddol a thynnu sylw at waith Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Cynnwys unrhyw linellau cymorth neu gyfeiriadau gwe perthnasol sy'n cefnogi ein negeseuon atal ac ymyrryd yn gynnar. Cyfraniad ariannol o £5,000 ar gyfer nwyddau ac eitemau diogelwch personol. | Cymeradwywyd |
| 03/05/2023 | Uwch-gynhadledd Gwrth-hiliaeth Un Gwasanaeth Cyhoeddus 2023 | Caiff y digwyddiad hwn ei gynnal ar 17 Mai 2023 a chaiff ei ddatblygu ar y cyd gan Dîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru ar ran Partneriaid Cyfiawnder Troseddol a Llywodraeth Cymru. Dwyn ynghyd uwch-arweinwyr o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector er mwyn gwella dealltwriaeth o wrth-hiliaeth. Goblygiad ariannol o £4,450.67 | Cymeradwywyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 30/04/2023 | Cynllun Peilot Ymateb i Ardaloedd â Phroblem Ymddygiad Gwrthgymdeithasol y Swyddfa Gartref | O dan y Cynllun Gweithredu ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a gyhoeddwyd ar 27 Mawrth 2023, mae'r Llywodraeth yn rhoi cyllid ychwanegol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a nodwyd bod De Cymru yn un o 10 ardal i roi'r cynllun peilot hwn ar waith a fydd yn golygu bod mwy o swyddogion yr heddlu yn bresennol yn ogystal â swyddogion eraill ag awdurdod, fel wardeiniaid. I gefnogi hyn, mae cais i greu swydd am ddwy flynedd i gydlynu data a gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol er mwyn nodi ardaloedd problemus. | Cymeradwywyd |
| 18/04/2023 | Gwerthusiad Annibynnol o Effaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru | Cyfraniad ariannol o hyd at £15,000 tuag at werthusiad annibynnol o effaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru. Mae'r adolygiad hwn yn cynnig cyfle i dynnu sylw at y gwaith a wneir gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a dangos effaith y buddsoddiad cyfunol hwn gan Heddluoedd Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. | Cymeradwywyd |
| 17/04/2023 | Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru | Nod y Rhwydwaith yw bod yn llais strategol ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru, drwy gydweithio ag aelodau i hyrwyddo a chefnogi gwaith partneriaeth ym maes diogelwch cymunedol a dylanwadu ar y broses o lywio a datblygu polisi cenedlaethol ac arferion lleol. Er mwyn parhau i gefnogi'r gwaith llwyddiannus hwn, mae'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi cytuno i gefnogi'r Rhwydwaith yn 2023/24 ac i'r dyfodol. Fel rhan o'r cytundeb hwn, bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru | Cymeradwywyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | yn cyfrannu £40,000 a bydd y Comisiynwyr eraill yn cyfrannu £20,000 yr un. | |
| 14/04/2023 | Archwiliad Diogelu Data | Mae dyletswydd ar Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gydymffurfio â phob agwedd ar Ddeddf Diogelu Data 2018. Er mwyn deall ein cryfderau, ein gwendidau a meysydd i'w gwella mewn perthynas â Diogelu Data, y cynnig yw cynnal Archwiliad Diogelu Data annibynnol. Rhagwelir na fydd yr archwiliad yn cymryd mwy na 7 diwrnod, a bydd yn costio uchafswm o £6,300. | Cymeradwywyd |
| 03/04/2023 | Rôl y Cydlynydd Camu i'r Campau | Cais am gyllid er mwyn cyflawni Cam 3 o’r Prosiect Camu i'r Campau yn seiliedig ar ganlyniadau cadarnhaol a dderbyniwyd eisoes ac i archwilio’r camau nesaf i ystyried trefniadau ariannu tymor hwy. | Cymeradwywyd |